Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 20 Gorffennaf 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| L G Thomas | | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| Gareth Evans<br>Margaret Williams | Michaela Jones | Mike Lewis |

**Cynrychiolydd Cyngor Cymuned/Tref:**
Philip Crayford

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J A Hale a/ac M B Lewis
Aelodau Cyfetholedig(wyr):

---

## 1 Ethol Cadeirydd ar Gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018-2019.

**Penderfynwyd** ethol Jill Burgess yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018/2019.

## 2 Ethol Is-Gadeirydd ar Gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018-2019.

**Penderfynwyd** ethol Margaret Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018-2019.

**Margaret Williams (Is-gadeirydd) fu'n llywyddu**

## 3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**4 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2018 fel cofnod cywir.

**5 Cyfarfod blynyddol ag arweinwyr y grwpiau gwleidyddol, cadeiryddion pwyllgorau a'r Prif Weithredwr.**

Adroddodd yr Is-gadeirydd fod y Pwyllgor Safonau yn gwahodd arweinydd pob plaid wleidyddol, y Prif Weithredwr a chadeiryddion dethol i'r pwyllgor yn flynyddol er mwyn trafod eu dealltwriaeth o waith y pwyllgor a'u barn amdano.

Oherwydd etholiadau llywodraeth leol 2017 a dyfodiad cynghorwyr newydd, gohiriwyd y gwahoddiadau er mwyn caniatáu i'r cynghorwyr ymgartrefu yn eu rolau newydd.

Y themâu ar gyfer trafodaeth, a chafwyd eu hanfon cyn y cyfarfod, oedd:

1) A ydych chi'n ystyried ei fod yn addas i gael Côd Ymddygiad yng Nghymru sy'n gymwys i bob cynghorydd ac aelod cyfetholedig?

2) Beth yn eich tyb chi yw rôl y Pwyllgor Safonau?

3) A oes unrhyw waith, yn eich barn chi, y dylai'r Pwyllgor Safonau fod yn ei gyflawni dros y flwyddyn nesaf?

4) Sut gall arweinwyr pleidiau gwleidyddol/cadeiryddion pwyllgorau hyrwyddo safonau a llywodraethu da trwy arweinyddiaeth?

5) Sut gall y Pwyllgor Safonau fod yn fwy gweithredol wrth hyrwyddo ymddygiad moesegol ymhlith cynghorwyr/aelodau cyfetholedig?

6) Mae'r Ombwdsmon, Panel Dyfarnu Cymru a'r Uchel Lys yn credu y dylai gwleidyddion (ac uwch-swyddogion mewn rhai achosion) fod yn groendew a bod cellwair gwleidyddol yn rhan o'r byd gwleidyddol. Beth yw eich barn ar hyn a sut byddech chi, fel arweinydd grŵp gwleidyddol, yn sicrhau nad yw'r llinell yn cael ei chroesi?

7) Beth yw eich barn ar hyfforddiant côd ymddygiad yr awdurdod? Sut gellir ei wella er mwyn codi safonau moesegol cynghorwyr/aelodau cyfetholedig?

8) Mae hyfforddi cynghorwyr/aelodau cyfetholedig yn hollbwysig. Sut gall y Pwyllgor Safonau fynd i'r afael â'r rhai nad ydynt yn ystyried bod hyfforddiant yn bwysig?

9) Nid yw Proses Datrys Anghydfodau Mewnol (IDRP) yr Awdurdod (Cynghorydd yn erbyn Cynghorydd) wedi'i defnyddio eto. Pe bai anghydfod, a fyddech yn annog eich plaid i ddefnyddio'r broses? A ydych yn ystyried bod prinder yr atgyfeiriadau i'r IDRP yn dangos bod y cynghorwyr yn cydymffurfio â'r côd?

10) Beth fydd rôl y Pwyllgor Safonau yn y dyfodol?

Croesawodd yr Is-gadeirydd y cynghorwyr Peter Black, Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a Penny Matthews, Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a Statudol i'r cyfarfod. Amlinellwyd y canlynol ganddynt:

- Teimlodd y ddau ei bod hi'n addas o hyd i gael Côd Ymddygiad yng Nghymru sy'n gymwys i bob cynghorydd ac aelod cyfetholedig;
- Nodwyd ganddynt mai rôl y Pwyllgor Safonau oedd rheoli'r Côd Ymddygiad a hyrwyddo a diogelu gonestrwydd y cynghorwyr a'i staff;
- Awgrymodd y cynghorydd P Matthews y gallai'r Pwyllgor Safonau ystyried archwilio'r cynghorau cymuned a thref;
- Mae'r mwyafrif o arweinwyr pleidiau'n treulio llawer o amser yn ymdrin â materion disgyblu a bydd y mwyafrif yn ymdrechu i ddatrys unrhyw faterion perthnasol drwy lywodraethu da;
- Gall arweinwyr pleidiau/cadeiryddion hyrwyddo safonau a llywodraethu da drwy arwain drwy esiampl a gwneud penderfyniadau da a thrwy fod yn agored ac yn dryloyw;
- Nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw ymddygiad anfoesegol ymhlith cynghorwyr/aelodau cyfetholedig;
- Cytunwyd â barn y PSOW, hynny yw, dylai'r rhai yn y byd gwleidyddol fod yn groendew. Mae gan lawer ohonynt farn gref a gall rhai groesi'r llinell ambell waith ond dylid ymdrin â'r rhai sydd wedi mynd yn rhy bell yn briodol gan y PSOW;
- Mae'r hyfforddiant Côd Ymddygiad yn ardderchog, serch hynny, awgrymwyd y dylid cynnal hyfforddiant gloywi ar gyfer cynghorwyr mewn perthynas â datgan cysylltiadau;
- Awgrymwyd hefyd y dylid datblygu hyfforddiant ar-lein neu hyfforddiant sy'n fwy rhyngweithiol oherwydd gall hyfforddiant sy'n cael ei gyflwyno drwy gyflwyniadau Powerpoint fod yn ddigyswllt ar gyfer cynghorwyr;
- Trafodwyd hyfforddiant gorfodol i'r rhai sydd ar y Pwyllgor Trwyddedu neu'r Pwyllgor Cynllunio a'r anawsterau ynghylch cynnal hyfforddiant arall a ystyrir yn orfodol;
- Awgrymodd y Cynghorydd P Black y gallai cynghorwyr gael hyfforddiant 'sgiliau' penodol megis sut i graffu ar ddogfennau a'u cwestiynu neu sut i reoli llwyth gwaith cynghorydd;
- Cytunwyd bod diffyg atgyfeiriadau i'r PSOW yn dangos bod y cynghorwyr yn ymddwyn o fewn y Côd, fodd bynnag, roedd yn aneglur a allai cynghorwyr ddod o hyd i fanylion y Procotol Datrys Anghydfodau Mewnol;

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r ddau gynghorydd am fod yn bresennol.

## 6 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2017-2018.

Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2017-2018.

Mae'r adroddiad yn amlinellu gwaith y Pwyllgor Safonau yn ystod 2017-2018.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr hoffai gynnwys paragraff ychwanegol er mwyn amlinellu gwybodaeth sy'n nodi nad oes rhaid i'r awdurdod ddefnyddio'r Protocol Datrys Anghydfodau Lleol i Gynghorwyr.

**Penderfynwyd:**

1) Ychwanegu paragraff ychwanegol i amlinellu gwybodaeth am y Protocol Datrys Anghydfodau Lleol i Gynghorwyr;
2) Anfon yr adroddiad ymlaen i'r cyngor er gwybodaeth.

**7 Adroddiad am R (Harvey) yn erbyn Cyngor Tref Ledbury.**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad "er gwybodaeth" i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Safonau am benderfyniad diweddar yn yr Uchel Lys sy'n amlinellu sut y dylai'r cyngor ymdrin â chwyn yn erbyn cynghorydd.

Roedd yr achos yn ymwneud â chynghorydd a oedd wedi gwasanaethu fel cynghorydd yng Nghyngor Tref Ledbury ers 2011.

**Penderfynwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi**.**

**8 Llyfr Achosion y Côd Ymddygiad.**

Rhoddodd y Swyddog Monitro yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am Lyfr Achosion Côd Ymddygiad diweddaraf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Roedd y rhifyn ddiweddaraf, sef rhifyn 16 Mai 2018, yn cynnwys y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2018 ac fe'i hatodwyd at Atodlen A.

**Penderfynwyd**

1) Y dylid nodi'r adroddiad;
2) Dosbarthu'r adroddiad i'r holl gynghorwyr.

**9 Torri Côd Ymddygiad - Cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC).**

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor am y penderfyniadau a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â honiadau bod cynghorwyr yr awdurdodau lleol a chynghorwyr cymuned a thref wedi torri'r Côd Ymddygiad.

**Penderfynwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

**10 Cynhadledd Safonau Cymru 2018. (Llafar)**

Dywedodd y Swyddog Monitro y cynhelir Cynhadledd Safonau Cymru 2018 ym Mhrifysgol Aberystwyth ddydd Gwener 14 Medi 2018. Gwahoddwyd hyd at bedwar

cynrychiolydd a fyddai'n cynnwys y Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro.

Mae sawl aelod cyfetholedig wedi mynegi barn yr hoffent fod yn bresennol.

**Penderfynwyd** y dylai Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd e-bostio'r Aelodau Cyfetholedig i gadarnhau eu presenoldeb.

## 11 Cynllun Gwaith 2018-2019. (Llafar)

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r cyfweliadau ag Arweinwyr Pleidiau, Cadeiryddion a'r Prif Weithredwr yn parhau ar gyfer yr ychydig gyfarfodydd nesaf.  Roedd Arweinydd y Cyngor wedi derbyn y gwahoddiad i fod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd** y byddai'r Prif Weithredwr yn cael ei wahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf hefyd.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.30 am

**Cadeirydd**